LEG-11-2002(min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 30 Ebrill 2002

**Amser:** 9:30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Lorraine Barrett | (Llafur) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Delyth Evans | (Llafur) |
| John Griffiths | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler i Bwyllgorau’r Cynulliad |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Pauline Jarman

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol – LEG-10-2002(min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Dechreuodd y Cadeirydd drwy ddiolch i bawb a fu o gymorth wrth drefnu ymweliad y ddirprwyaeth o **Gydbwyllgor ar Offerynnau Statudol Tŷ’r Cyffredin** a’r **Pwyllgor Diwygio Dadreoli a Rheoliadol**. Yn arbennig, roedd y Cadeirydd am ddiolch i Dr John Marek yn arbennig am gwrdd â hwy er ei fod yn brysur, ynghyd â Lorraine Barrett a fynychodd y sesiwn ymgyfarwyddo ac a fu’n helpu i groesawu’r gwesteion.

2.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y byddai seminar ar ddrafftio deddfwriaeth yn cael ei gynnal ar gyfer cyrff allanol a'r wasg **yfory**, **12.45pm – 13.30** yn **Ystafell Gynadledda "C"**.
Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau y cânt fynychu os dymunant wneud hynny.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**
**LC467 – Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.1 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC467 (Adroddiad).

**LC468 – Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002**
3.4 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC468 (Adroddiad).

**LC469 – Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2002**
3.7 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC469 (Adroddiad).

**LC470 – Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2002**

3.10 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau mewn unrhyw ffordd a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC470 (Adroddiad).

**LC471 – Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

3.13 Cyflwynodd Mr Davies yr Adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.14 Codwyd cwestiwn ynglŷn â tharddiad y ddeddfwriaeth gychwynnol. Cytunwyd y dylai'r Ymgynghorydd Cyfreithiol egluro'r mater.

3.15 Gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.16 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC471 (Adroddiad).

**LC472 – Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002**

3.17 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.18 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn mewn unrhyw ffordd a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag,

gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.19 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC472 (Adroddiad).

**LC473 – Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.20 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.21 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r rheoliadau mewn unrhyw ffordd a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.22 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC473 (Adroddiad).

**LC474 – Rheoliadau Bwyd (Cyffaith Jeli) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002**

3.23 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.24 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliadau mewn unrhyw ffordd a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.25 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC474 (Adroddiad).

**LC462 – Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002**

3.26 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.27 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i’r casgliad bod materion i’w codi o dan Reol Sefydlog 11.5.

3.28 Yn **Rheoliad 2(1)** – **“perthynol”** – dylai llinell olaf y diffiniad hwn sef “gŵr a gwraig” fod yn “gŵr neu wraig”. Dywedwyd y dylai fod yn bosibl cywiro hyn yn y fersiwn a gyhoeddir.

3.29 **Rheoliad 9(a)** – roedd angen cynnwys manylion am “swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol” ar y dystysgrif. Yn y diffiniad o’r term hwn, fodd bynnag, cydnabuwyd hwyrach na fyddai swyddfa a nodwyd yn benodol, a byddai’r term felly yn cyfeirio at unrhyw swyddfa yn y Cynulliad.

3.30 Yn sgîl yr uchod, roedd yn aneglur sut y dylid cydymffurfio â pharagraff (a) rheoliad 9 pe na chafwyd swyddfa benodedig. Yn yr ymateb a gyflwynwyd ar ran y Gweinidog cydnabuwyd dilysrwydd y pwynt hwn. Fodd bynnag, derbynnir na fydd hyn o bwys yn ymarferol gan fod yna gynlluniau i bennu swyddfeydd ar gyfer bob rhan o Gymru.

3.31 **Rheoliad 9(f)** – roedd hyn yn gofyn am dystysgrif gofrestru i gynnwys manylion unrhyw amod yr oedd y broses gofrestru yn amodol iddo, gan restru agweddau penodol ar ofynion amodau i’w cynnwys.

3.32 Goblygiad hyn oedd y byddai testun swyddogol yr amod yn cael ei amlinellu rhywle arall ac y byddai’n rhaid copïo manylion yr amod, yn cynnwys y materion y cyfeiriwyd atynt yn benodol, ar y dystysgrif gofrestru. Fodd bynnag, mewn gwirionedd mae’n debyg y bydd unig destun swyddogol y diffiniad ar y dystysgrif gofrestru.

3.33 Yn yr amgylchiadau hyn, os mai pwrpas rhestru eitemau penodol ym mharagraffau (i) – (v) oedd gosod y math o fater a allai gael ei nodi mewn amodau, pryder y Pwyllgor oedd nad yw’n ymddangos fod y pwerau galluogi yn awdurdodi hyn.

3.34 Cadarnha’r sylwadau a gyflwynwyd ar ran y Gweinidog mai nid bwriad y ddarpariaeth hon oedd gosod materion a allai cael eu cynnwys o dan amodau. Y pwynt o dan sylw yw’r pwynt drafftio sef hwyrach nad oes gan baragraffau (i) – (v) arwyddocâd ymarferol oherwydd y byddai testun llawn yr amod o reidrwydd yn cael ei nodi yn y dystysgrif gofrestru.

3.35 **Rheoliad 18(f)(g)** – argraffwyd y paragraffau o fewn cromfachau sgwâr y tybir iddynt gael eu cadw'n anfwriadol o fersiwn ddrafft y rheoliadau. Dylid dileu'r cromfachau hyn o'r fersiwn a gyhoeddir.

3.36 Yn **Atodlen 2, paragraff 10(2)(a) a (c)** Roedd yn amlwg bod y cyfeiriadau at "adran 113(313)" yn anghywir. Unwaith eto dylid cywiro hyn yn y fersiwn a gyhoeddir.

3.37 Gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.38 Codwyd cwestiwn gan Aelod ynglŷn â sut y byddai'r Pwyllgor yn cael eglurhad bod y pwyntiau a nodwyd yn yr Adroddiad wedi'u diwygio ar yr OS arbennig.

3.39 Ymatebodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol drwy ddweud nad oedd gan y Pwyllgor y pŵer i orfodi newidiadau i'r OS'au, dim ond adrodd i'r Cynulliad. Fodd bynnag, cymharodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yr OS'au terfynol â'r adroddiad er mwyn sicrhau bod y diwygiadau a argymhellwyd wedi'u hystyried.

3.40 Bu'r materion hyn yn destun cyfeirio o dan Reol Sefydlog 11.4. Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC462 (Adroddiad).

**Eitem 4: Trafod yr ymateb i gais y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch dewis gweithdrefnau ar gyfer Os'au**

4.1 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor o gyfarfod y Pwyllgor Deddfau **26 Chwefror** lle lleisiodd yr aelodau eu dymuniad i wybod pam fod gweithdrefnau arbennig yn cael eu dewis ar gyfer Offerynnau Statudol gwahanol. Penderfynwyd y byddai'r clerc yn cysylltu â'r Uned Fusnes i'w hysbysu bod y Pwyllgor am gael y wybodaeth hon yn y dyfodol. I'r perwyl hwn, ysgrifennodd Clerc y Pwyllgor at Bennaeth yr Uned Fusnes sef Marion Stapleton. Dosbarthwyd ymateb yr Uned Fusnes i'r aelodau.

4.2 Yn y cyfarfod diwethaf penderfynodd y Pwyllgor nad oedd yr ymateb a dderbyniwyd yn ateb cwestiynau'r aelodau yn llawn. Roedd yr aelodau yn pryderu'n arbennig am y diffyg gwybodaeth ynglŷn â dyraniad y weithdrefn weithredol. Ddydd Mawrth diwethaf dilynodd yr holl offerynnau statudol a oedd ar ein hagenda (cyfanswm o 11) y weithdrefn weithredol. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried 154 o offerynnau statudol hyd yma eleni. O'r rhain, mae 86

wedi dilyn y weithdrefn weithredol. Penderfynwyd y dylai’r Cadeirydd ysgrifennu at y Trefnydd i dynnu ei sylw at y broblem. Dosbarthwyd llythyr y Cadeirydd at y Trefnydd i’r aelodau.

4.3 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod gweithdrefn wedi cael ei rhoi ar waith a fyddai’n sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael i’r aelodau. Hysbyswyd y Cadeirydd y byddai Aelodau’r Cynulliad yn derbyn esboniad byr o’r rheswm pam y defnyddiwyd y weithdrefn weithredol. Byddai’r wybodaeth honno’n cael ei anfon dros yr e-bost at aelodau’r Cynulliad gan yr Uned Fusnes. Dywedodd y Cadeirydd y daeth y weithdrefn i rym ar 11$^{eg}$ Ebrill.

4.4 Dilynwyd hyn gan drafodaeth. Penderfynwyd y dylid parhau i ystyried y defnydd o’r weithdrefn Weithredol a gweithdrefnau eraill yn y cyfarfod nesaf er mwyn caniatáu i’r Aelodau asesu’r wybodaeth sy’n cael ei ddarparu iddynt yn awr parthed hyn.

**Eitem 5: Cyngor Cyfreithiol i Aelodau’r Cynulliad: Mr Peter Jones, Cwnsler Pwyllgorau’r Cynulliad**

5.1 Cafwyd cyflwyniad byr gan Mr Peter Jones sef Cwnsler Pwyllgorau’r Cynulliad ar ei swydd newydd yn Swyddfa’r Llywydd. Dywedodd Mr Jones y byddai ar gael i bob Aelod drwy’r Pwyllgorau Pwnc ar gyfer unrhyw faterion cyfreithiol y byddai angen eu hegluro iddynt.

5.2. Croesawodd aelodau Mr Jones a lleisiwyd dymuniad ganddynt i gael cyfarfod pellach i drafod agweddau ar y swydd newydd.

5.3. Cytunodd Mr Jones y byddai’n dychwelyd i’r Pwyllgor i drafod y mater hwn.

**Gweithredu: Clerc**

**Eitem 6: Unrhyw fusnes arall a Dyddiad y cyfarfod Nesaf**

6.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 7 Mai 2002.